Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Penrhiw-ceibr

## Dyddiad yr arolygiad: **Mawrth 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae hon yn ysgol hapus, gynhwysol a chroesawgar. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn siarad â balchder am yr hyn sydd ganddi i'w gynnig. Mae ei chwricwlwm yn darparu profiadau dysgu difyr a chymhellol sy'n gwneud dysgu'n hwyl. Mae disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwersi, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud eu gorau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau siarad yn dda, yn aml o fannau cychwyn isel. Mae podlediad misol yr ysgol yn enghraifft dda o'r modd y daw disgyblion yn siaradwyr hyderus erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau digidol yn hyderus, gan eu defnyddio'n dda i arddangos eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein, hefyd. Mae athrawon yn gweithio tuag at wella medrau mathemategol disgyblion, yn enwedig wrth iddynt alw ffeithiau rhif i gof, ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac mae angen ei wella. Mae athrawon yn siarad â disgyblion am sut i wella'u gwaith yn rheolaidd, ac mae disgyblion yn aml yn gweithredu ar hyn, ond nid ydynt bob amser yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion gywiro a gwella gwaith neu'n nodi'n ddigon manwl beth mae angen i ddisgyblion ei wneud i fynd â'u gwaith i'r cam nesaf. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda iawn, gan gynnwys y rhai yn y dosbarth arsylwi ac asesu, i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn cyfleu ei weledigaeth glir i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'n sicrhau bod lles disgyblion yn flaenoriaeth ac mae staff yn gweithio'n dda iawn i'w gefnogi â hyn. Ceir gwaith tîm a chydweithrediad effeithiol iawn yn yr ysgol. Mae staff yn uchelgeisiol ar gyfer y disgyblion ac yn gweithio'n galed i gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag dysgu. Maent yn darparu lefelau uchel o ofal i ddisgyblion ac yn diwallu eu hanghenion emosiynol yn dda. Mae arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cryf â rhieni, ac mae hyn yn cyfrannu at naws deuluol yr ysgol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Mae'r cysylltiadau hyn yn ymestyn y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu balchder yn ble maent yn byw, a dealltwriaeth o'i lle yng Nghymru.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi gwella'u rôl o ran gwerthuso perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer ei gwella, ond megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

# Argymhellion

**A1** **Gwella medrau sylfaenol disgyblion mewn mathemateg**

**A2** **Sicrhau bod adborth i ddisgyblion yn nodi camau clir ar gyfer gwella a bod disgyblion yn gweithredu ar yr adborth hwn**

**A3** **Cryfhau rôl llywodraethwyr mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau eu bod yn darparu her addas i'r ysgol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penrhiw-ceibr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 133 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 101 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 29.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | *0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/10/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.